**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES**

**(Ystafelloedd Pwyllgor A/B – Canolfan Ddinesig Castell-nedd)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 19 Rhagfyr 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd L.M.Purcell** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Galsworthy** |
| **Cynghorwyr**: | A.P.H.Davies, S.Paddison, S.H.Reynolds, D.Whitelock, A.N.Woolcock a/ac H.C.Clarke |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Warren, A.Thomas, J.Hodge, V.Smith, C.Frey-Davies, D.Tiddy, M.Weaver, K.Wedmore, S.Bradshaw, H.Davies, C.Howard, M.Selby, A.Potts, D.Harding, M.Potts, V.Thomas, J.Caswell, F.Lewis, S.Waite, A.Bradshaw, S.Curran and J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr P.D.Richards a/ac A.R.Lockyer |

1. **DATGANIADAU O FUDD**

Cafwyd datganiadau o fudd gan y Cynghorwyr canlynol ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd C. Galsworthy | Par: Y Polisi Taliadau Uniongyrchol am ei bod yn derbyn Taliadau Uniongyrchol ar gyfer aelod o'i theulu. |
| Y Cynghorydd P.D.Richards | Par: Trefniadau Contract ar gyfer y Gwasanaeth Mân Addasiadau am ei fod yn aelod o fwrdd Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin Cyf. / Care and Repair Western Bay Ltd. |

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019.

## 3. MESURAU LEFEL UCHEL Y GWASANAETHAU PLANT A PHOBL IFANC A'R GWASANAETHAU I OEDOLION - CHWARTER 2 (19 EBRILL - 19 MEDI)

Derbyniodd y pwyllgor wybodaeth am Ddata Mesurau Lefel Uchel y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant a Phobl ifanc ar gyfer cyfnod yr ail chwarter (Ebrill 2019 – Medi 2019) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

I ateb ymholiadau’r Cynghorwyr derbyniwyd yr esboniadau canlynol.

Roedd nifer y swyddi gwag a nodwyd yn yr adroddiad yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, cynorthwywyr a staff cymorth; nid oedd y ffigur yn ymwneud â Gweithwyr Cymdeithasol yn unig. Yn y dyfodol, byddai adroddiadau’n cynnwys mwy o fanylion am bob gwasanaeth.

Roedd swyddi gwag ychwanegol ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol o ganlyniad i gyllid ychwanegol dros dro a ddaeth i law felly roedd swyddi ychwanegol yn cael eu llenwi dros dro. Hefyd, byddai swyddi gwag yn y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol yn effeithio ar yr amserau aros ar gyfer asesiadau.

Mewn 85% (11/13) o’r achosion a archwiliwyd, roedd y sawl dan oruchwyliaeth wedi mynychu hyfforddiant yn ystod y tair sesiwn oruchwylio ddiwethaf; roedd hyn o ganlyniad i’r ffaith bod anghenion unigol y swyddog wedi’u targedu.

O ganlyniad i rywfaint o anhawster yn cyrchu ffeiliau goruchwylio staff yng Nghanolfan Ddiogel Hillside, roedd loceri newydd wedi’u prynu er mwyn sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto. Byddai’r ffeiliau hyn yn cael eu harchwilio eto.

Ar ôl craffu, cytunwyd y byddai’r adroddiad yn cael ei nodi.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNIAD**

Penderfynodd y pwyllgor graffu'r eitemau canlynol i fwrdd y cabinet:

Ailfodelu ac Adleoli Gwasanaethau Dydd Anghenion Cymhleth

Cafodd y pwyllgor drosolwg o'r cynnig i ailfodelu ac adleoli'r Gwasanaeth Dydd Anghenion Cymleth a leolir yn Abbeyview, Brynamlwg a Threm y Môr fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Cynghorwyr nad ymarfer torri costau oedd y cynnig am fod y costau'n niwtral. Y bwriad oedd atgyfnerthu'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes.

Mynegodd y Cynghorwyr bryder am yr amser ychwanegol y byddai defnyddwyr gwasanaethau'n ei dreulio'n teithio i'r lleoliad newydd. Esboniwyd na fyddai unrhyw amser ychwanegol yn cael ei dreulio ar fysiau, a hynny drwy drafod gyda'n cydweithwyr trafnidiaeth. Os byddai angen, byddai'r llwybrau codi teithwyr yn cael eu haildrefnu i sicrhau hyn. Byddai llai o lwybrau codi teithwyr i bob bws lle bynnag byddai angen hynny. Byddai adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r amserau a'r lleoliadau'n cael ei gyflwyno i'r Cynghorwyr ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth er mwyn iddynt allu ymdopi â'r newidiadau a ddaw yn sgil y cynnig hwn. Byddai cyfeillgarwch rhwng defnyddwyr gwasanaethau, a godwyd yn flaenorol gan rieni yn ystod yr ymgynghoriad, hefyd yn rhan o'r gwaith cynllunio.

Cadarnhaodd swyddogion y byddai costau ychwanegol oherwydd hyfforddiant staff am y byddai angen i staff asiantaeth weithredu yn lle'r staff fyddai'n derbyn yr hyfforddiant. Roedd trafodaethau gyda darparwyr gofal yn parhau.

Cafwyd trafodaeth am y broses i gefnogi teuluoedd a rhieni a oedd yn anfodlon am y cynnig. Esboniodd swyddogion fod cyfarfodydd wedi'u cynnal gydag unigolion i liniaru unrhyw faterion ac i gynorthwyo pobl i ddeall pam roedd y newidiadau wedi'u cyflwyno. Cydnabuwyd hefyd bod newid yn gallu bod yn anodd i lawer o bobl. Hefyd, wrth fyfyrio am yr ymgynghoriad, byddai unrhyw wersi a oedd wedi'u dysgu yn

sgil y broses honno'n cael eu defnyddio i lywio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Ar ôl craffu, roedd y pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i fwrdd y cabinet eu hystyried.

Polisi Taliadau Uniongyrchol

Ar y pwynt hwn, ailnododd Y Cynghorydd C. Galsworthy ei budd yn yr eitem hon ac ymddieithriodd o'r cyfarfod.

Derbyniodd y Cynghorwyr wybodaeth am y Polisi Taliadau Uniongyrchol fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

I ateb ymholiadau'r Cynghorwyr, nodwyd nad oedd y Polisi Taliadau Uniongyrchol yn destun ymgynghori allanol am mai esboniad oedd e o'r system Taliadau Uniongyrchol, yn hytrach na pholisi sy'n nodi ac esbonio'r dull gweithredu mae'r Cyngor wedi dewis ei fabwysiadu o fewn fframwaith cyfreithiol. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig yn rhan o waith y Cyngor o gyflawni ei ddyletswyddau deddfwriaethol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Yn ogystal, holodd y Cynghorwyr pam nad oedd effaith ar y cymoedd. Roedd nifer o achosion lle nad oedd defnyddwyr gwasanaethau'n gallu recriwtio i rolau cynorthwywyr personol. Esboniodd swyddogion fod yr adran hon o'r adroddiad yn cyfeirio at y dyletswyddau deddfwriaethol o dan y deddfau cydraddoldeb perthnasol. Hefyd, ni fyddai neb yn cael ei orfodi i ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Pe na bai unrhyw gynorthwywyr personol ar gael, yna byddai'r Cyngor yn darparu'r gwasanaeth ar sail anghenion y person. Gallai derbynwyr hefyd roi'r gorau i daliadau uniongyrchol ar unrhyw adeg.

Holodd y Cynghorwyr beth oedd cost resymol am fod hyn wedi'i nodi yn y polisi. Esboniodd swyddogion fod y gost yn dibynnu ar angen y claf fel yr aseswyd a chost resymol am y gwasanaeth. Petai derbynnydd yn dewis trefnu gwasanaeth drutach, byddai'n rhaid i'r unigolyn dalu'r gwahaniaeth yn y gost.

Mewn ymateb i ymholiadau'r Cynghorwyr, cadarnhaodd swyddogion fod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu gwirio gan y gweithiwr cymdeithasol. Pe na bai gweithiwr cymdeithasol yn gysylltiedig, yna'r tîm taliadau uniongyrchol fyddai'n cynnal gwiriadau ac yn atgyfeirio, pe bai angen, at y tîm diogelu.

Ar ôl craffu, roedd y pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i fwrdd y cabinet eu hystyried.

Polisi Dyrannu Cyfnodau Ysbaid mewn Gwasanaethau Oedolion

(Ar y pwynt hwn, dychwelodd y Cynghorydd C.Galsworthy i gymryd rhan yn y cyfarfod.)

Derbyniodd y Cynghorwyr wybodaeth am ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Polisi Dyrannu Seibiant mewn Gwasanaethau Oedolion a oedd wedi'i ddiwygio, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Mynegwyd pryder am y ffurflen ticio blychau newydd a oedd yn pennu anghenion gofal a chymorth unigolion a gofalwyr o ran eu cymhwyster i gael seibiant. Esboniodd swyddogion fod y ffurflen wedi'i datblygu yn dilyn cais gan weithwyr cymdeithasol am gymorth wrth asesu angen. Mae'r system sgorio'n rhan o'r asesiad. Byddai'r ffurflen wedyn yn rhan o ystyriaethau'r Panel Adnoddau sy'n dyrannu seibiant.

Gofynnodd y pwyllgor beth oedd yr amserau aros ar gyfer asesiadau ac esboniwyd bod yr amserau aros wedi gostwng ond y byddai ymateb ar unwaith pe bai cais yn cael ei nodi'n un brys.

Datblygwyd y polisi er mwyn cyflwyno dull mwy hyblyg i alluogi defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i ddewis pecyn gofal a oedd yn cyd-fynd â'u hanghenion. Nid oedd rhai defnyddwyr gwasanaeth am fynd i leoliad seibiant oherwydd ei bod yn well ganddynt aros gartref a chael gofal yna. Roedd modd defnyddio taliadau uniongyrchol hefyd.

Roedd gan y tîm taliadau uniongyrchol gofrestr o gynorthwywyr personol ac roeddent yn holi cynorthwywyr personol sydd eisoes wrthi'n gweithio os byddai defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr yn chwilio am gymorth seibiant ac yn methu â dod o hyd i Gynorthwyydd Personol.

Ar ôl craffu, roedd y pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i fwrdd y cabinet eu hystyried.

Gwasanaethau Oedolion, Plant a Phobl Ifanc – 2il Chwarter

Derbyniodd y pwyllgor wybodaeth am Wybodaeth Perfformiad, Cwynion a Chlod ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc fel ei gilydd ar gyfer Chwarter 2 fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd y Cynghorwyr yn pryderu am y 100 o bobl nad oeddent wedi'u hatal rhag dod yn ddigartref. Esboniodd swyddogion y byddai adroddiad diweddaru'n cael ei baratoi a fyddai'n cynnwys yr amrywiol resymau pam nad oedd digartrefedd wedi'i atal a hefyd niferoedd y bobl a oedd wedi gwrthod help. Amlygodd swyddogion fod amryw resymau pam nad oedd digartrefedd wedi'i atal. Nid oedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot stoc tai. Roedd anawsterau gyda'r llety gwely a brecwast yn Abertawe. Roedd trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Tai Tarian i gynorthwyo i gefnogi'r bobl hyn sy'n agored i niwed.

Cafwyd trafodaeth ynghylch model i atal digartrefedd a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr Alban ac sydd wedi bod yn effeithiol iawn. Byddai swyddogion yn archwilio'r model hwn ac yn darparu adroddiad os byddai hynny'n briodol.

Ar ôl craffu, cytunwyd y dylid nodi'r adroddiad.

## 5. <u>MYNEDIAD I GYFARFODYDD</u>

**PENDERFYNWYD:** Y dylid eithrio'r cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd eu bod yn cynnwys y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd ym Mharagraffau 13 a 14 o Atodlen 12A i'r Ddeddf uchod.

## 6. <u>DIWEDDARIAD AR GYNLLUN STRATEGOL ANHWYLDER Y SBECTRWM AWTISTIG/ANHWYLDERAU NIWRODDATBLYGIADOL (ASD/NDD)</u>

Derbyniodd y pwyllgor ddiweddariad ar gynnydd a datblygiad Cynllun Strategol Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth / Anhwylderau Niwroddatblygiadol (ASD/NDD) fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Cafwyd trafodaeth am y gefnogaeth a ddarperir i bobl ag ASD/NDD. Lle bo angen, daethpwyd â'r gwasanaeth i'r defnyddwyr gwasanaethau. Er enghraifft, byddai staff y ganolfan waith yn ymweld â'r cleient os oedd yn anodd i'r cleient hwnnw fynd i'r canolfannau gwaith.

I ymateb i ymholiadau'r Cynghorwyr, nodwyd bod y cyllid wedi'i ddarparu gan y Gronfa Gofal Integredig a gâi ei harwain gan Fwrdd Iechyd Bae Abertawe felly nid oedd unrhyw effeithiau ariannol ar y Cyngor.

Mynegwyd pryder am y diffyg data am restrau aros am ddiagnosisau a faint o bobl oedd yn derbyn cefnogaeth ar ôl cael diagnosisau.

Cafwyd trafodaeth am bwysigrwydd cydweithio rhwng y Cyfarwyddiaethau Gwasanaethau, Iechyd a Thai ac Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cyson. Cafwyd trafodaeth bellach am yr angen i gynnwys asiantaethau eraill a oedd hefyd yn darparu gwasanaethau i gefnogi ASD/NDD. Gofynnwyd i Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc nodi'r holl asiantaethau sy'n gyfrifol am wasanaethau ASD/NDD ac i Gadeirydd y pwyllgor hwn ysgrifennu llythyr yn ymdrin â'r angen i'r holl asiantaethau weithio gyda'i gilydd.

At hynny, gofynnodd y Cynghorwyr i ystyriaeth gael ei rhoi i gynnal cyfarfodydd craffu ar y cyd ag Addysg, Sgiliau a Diwylliant ar bynciau trawsbynciol fel y Cynllun Strategol Awtistiaeth. Gofynnwyd i'r Swyddog Craffu roi gwybod i'r pwyllgor am unrhyw adroddiadau'n ymwneud ag ASD/NDD a oedd yn cael eu hystyried gan Fwrdd Cabinet Addysg, Sgiliau a Diwylliant.

Gofynnodd y Cynghorwyr i'w gwerthfawrogiad gael ei gyfleu i'r holl staff sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ASD/NDD am eu holl waith caled a'u hymrwymiad at ddarparu gwasanaeth rhagorol.

Ar ôl craffu, cytunwyd y dylid nodi'r adroddiad.

## 7. <u>CRAFFU CYN PENDERFYNIAD (PREIFAT)</u>

Penderfynodd y pwyllgor graffu'r eitemau preifat canlynol i fwrdd y cabinet:

<u>Adroddiad y Rheolwr ar Gartref Plant Diogel Hillside</u>

Derbyniodd y Cynghorwyr wybodaeth am y bobl ifanc, gwybodaeth am staff, cynllunio’r gwasanaeth a datblygiad yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mehefin – 31 Hydref 2019 (5 mis) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Ar ôl craffu, cytunwyd y dylid nodi’r adroddiad.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Derbyniwyd trosolwg o’r adroddiad Rheoliadau’r Gwasanaeth Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017 mewn perthynas â Chanolfan Ddiogel Hillside, fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Ar ôl craffu, cytunwyd y dylid nodi’r adroddiad.

**CADEIRYDD**